Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yng

## Nghyngor Sir Powys
## Neuadd y Sir
## Llandrindod
## LD1 5LG

## Chwefror/Mawrth 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr ac ar ei allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Cyngor Sir Powys yw'r awdurdod unedol ar gyfer Powys ac mae'n ymestyn dros chwarter o ardal Cymru. Mae'n un o'r awdurdodau mwyaf ond lleiaf ei phoblogaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae wedi'i leoli yng nghanolbarth Cymru ar hyd y Gororau sy'n ffinio â Lloegr, ac mae'n ffinio ag 13 awdurdod arall. Mae Powys yn cwmpasu 5,197 cilomedr sgwâr. Mae ei phoblogaeth o ryw 132,000 yn 4.4% yn unig o holl boblogaeth Cymru.

Sir wledig yw Powys yn bennaf, gyda rhai trefi bach a chanolig, ond dim aneddiadau mawr na dinasoedd. Un dref yn unig sydd â phoblogaeth yn fwy na 10,000; mae 15 prif anheddiad arall a channoedd o bentrefi bach a phentrefannau.

Ceir ym Mhowys gyfran isel o oedolion ifanc a chyfran uchel o oedolion hŷn sy'n gweithio ac oedolion sydd wedi ymddeol o'i gymharu â gweddill y DU yn gyffredinol. Oedran cyfartalog y boblogaeth yn 2002 oedd 43 oed, a oedd yn cymharu â 40 yng Nghymru a 39 oed yng Nghymru a Lloegr.

Mae Cyfrifiad 2001 yn dangos bod 25,516 o bobl, sef 21.1% o boblogaeth y sir dros dair blwydd oed, yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a bod 38.1% o'r grŵp oedran 3-15 yn siaradwyr Cymraeg. Ym Mhowys, nid yw siaradwyr Cymraeg wedi'u dosbarthu'n gyfartal o fewn y cymunedau amrywiol. Mae mwy o drwch y boblogaeth yn y gogledd nac yn y dwyrain.

Tua 73,000 yw cyfanswm gweithlu'r sir. Prif ddiwydiannau'r sir yw amaethyddiaeth a choedwigaeth, sy'n cyflogi 11% o'r gweithlu. Y sector cyhoeddus yw'r unig gyflogwr mawr gyda 26% o'r gweithlu yn cael ei gyflogi mewn llywodraeth leol, ysgolion a gwasanaethau iechyd. Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr gweithgynhyrchu mawr wedi diflannu yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

Mae 117 o ysgolion ym Mhowys, sef: 101 o ysgolion cynradd, 13 ysgol uwchradd a thair ysgol arbennig. O'r 101 o ysgolion cynradd, mae 53 (52%) ysgol yn bodloni diffiniad Llywodraeth Cymru (LlC) o ysgol fach (llai na 90 o ddisgyblion). O fewn y strwythur hwn, mae gan nifer o ysgolion prif ffrwd ddarpariaeth arbenigol i fodloni ystod eang o anghenion ychwanegol. Mae llawer o ysgolion yn darparu canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac yn rhannu darpariaeth fel mynediad i neuaddau a rhai cyfleusterau chwaraeon.

Cyfran y disgyblion mewn addysg orfodol sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yw 12%, sy'n cymharu â 18.9% yn genedlaethol.

Mae Asesiad Gwariant Safonol (AGS) Llywodraeth Cymru i bob pen o'r boblogaeth ar gyfer Powys ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Yn 2010-2011, gosododd y Cyngor ei gyllideb refeniw ar lefel yr Asesiad Gwariant Safonol. Gosodwyd y gyllideb addysg ar 98.9% o'r Asesiad addysg sy'n Seiliedig ar Ddangosydd (ASDd). Roedd y gyllideb addysg net ar gyfer 2010-2011 yn cynrychioli £5,152 y disgybl, sef y trydydd uchaf yng Nghymru, o'i gymharu â chyfartaledd o £4,800 y disgybl ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod cyfran uchel o boblogaeth y sir yn byw mewn cymunedau bach, gwledig, ac o ganlyniad,

mae gwasanaethau addysg yn fwy costus i'w cyflwyno nag ardaloedd llai tenau eu poblogaeth.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol:  Digonol**

Mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn ddigonol oherwydd:

- bod safonau yn dda ar y cyfan; a
- bod safonau lles ac ymgysylltu â phobl ifanc yn dda; a
- bod aelodau etholedig wedi gwneud penderfyniadau anodd yn ddiweddar ynglŷn â chau ysgolion ac ailstrwythuro prosesau'r Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau a chraffu

Fodd bynnag:

- nid yw'r awdurdod yn sicrhau ansawdd ac yn arfarnu'n ddigon da eto er budd dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr;
- mae gormod o ysgolion mewn categori achosi pryder i Estyn ac mae gan ormod o ysgolion ddiffyg uchel yn eu cyllidebau;
- mae'r awdurdod wedi bod yn rhy araf yn defnyddio ei ystod lawn o bwerau i ymyrryd a gwella ysgolion a/neu eu timau arweinyddiaeth a'u cyrff llywodraethol;
- nid yw aelodau etholedig yn rhoi digon o bwyslais ar safonau, ac yn rhy aml, maent yn rhoi pryderon lleol cyn lles ehangach y dysgwyr; ac
- nid yw'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau a chraffu yn ddigon effeithiol.

**Gallu i wella: Digonol**

Mae gan yr awdurdod lleol ragolygon gwella digonol oherwydd:

- bod ymrwymiad cryf i gydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus ledled Powys.

Fodd bynnag:

- mae hanes yr awdurdod o sicrhau gwelliant mewn ysgolion wedi bod yn siomedig.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i Gyngor Sir Powys:

A1 wella'r her i ysgolion, yn enwedig mewn perthynas ag arfarnu arweinyddiaeth a rheolaeth, a defnyddio ei ystod lawn o bwerau i wella ysgolion yn gyflymach;

A2 gwella cysondeb a chywirdeb asesiadau athrawon yng nghyfnodau allweddol 1 a 2;

A3 gwneud yn siŵr bod gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol (ADY) pob ysgol yn cael eu cynllunio a'u monitro'n strategol, a gwneud y defnydd gorau o arbenigedd y staff;

A4 gwella rheoli perfformiad, gan gynnwys dadansoddi effaith gwasanaethau ac adnoddau ar bob un o'r dysgwyr, ac wedyn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio a blaenoriaethu cyflwyno gwasanaethau ar gyfer y dyfodol;

A5 cymryd camau effeithiol i leihau'r diffyg yng nghyllidebau ysgolion; a

A6 chynnal momentwm y rhaglen moderneiddio addysg.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Cyngor Sir Powys yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 70 diwrnod (50 diwrnod gwaith) o dderbyn yr adroddiad. Bydd cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.

Mae Estyn o'r farn fod yr awdurdod yn dod o dan y categori gwaith dilynol a bydd angen ymweliad monitro gan Estyn arno. Bydd dyddiad a ffocws yr ymweliad monitro hwn yn cael ei bennu gan Estyn maes o law.

Yn ystod pob arolygiad craidd, mae'r tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr awdurdod lleol. Mae pum math o weithgarwch dilynol, sef:

1. Astudiaeth achos arfer ragorol
2. Monitro gan yr arolygydd cyswllt
3. Ymweliad monitro gan Estyn
4. Gwelliant sylweddol
5. Mesurau arbennig

Bydd unrhyw waith arolygu dilynol yn cael ei gynllunio ar ôl ystyried gweithgarwch arolygu a rheoleiddio arall o fewn awdurdod. Bydd yr holl arolygiadau dilynol yn cael eu cynnwys yng Nghalendr Rheoleiddio Awdurdodau Lleol i osgoi dyblygu a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i weithio'n agosach gyda Swyddfa Archwilio Cymru ac AGGCC.

# Prif ganfyddiadau

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? Da

### Safonau: Da

At ei gilydd, mae safonau ym Mhowys yn dda. Yn 2010, mae deilliannau ar gyfer asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol yn debyg i gyfartaledd Cymru yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, er bod y canran sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn is na'r disgwyl. Perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 yw'r gorau yng Nghymru. Yn 2010, mae perfformiad ar lawer o'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 ymhlith y gorau yng Nghymru.

Pan gaiff ysgolion Powys eu cymharu ag ysgolion tebyg yn ôl meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yr un fath â'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 ac, yn gyffredinol, mae'n uwch yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Fodd bynnag, mae perfformiad ar drothwy cyfnod allweddol 2 (cyfwerth â phum cymhwyster TGAU, gradd A* i C) a'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach (yn cynnwys yr holl gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo yn allanol ar gyfer disgyblion 16 oed) yng nghyfnod allweddol 4, islaw'r cyfartaledd.

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod meincnodau ar gyfer perfformiad ar sail prydau ysgol am ddim. Mae Powys wedi bodloni neu ragori ar bob un o'r meincnodau disgwyliedig heblaw un ar gyfer y tair blynedd hyd at 2009. Nid oes gwybodaeth am feincnodi ar gyfer 2010 ar gael eto.

Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Fe wnaeth canran y dysgwyr nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth wella yn 2009 a hwn oedd yr isaf yng Nghymru. Mae canran y disgyblion sy'n aros mewn addysg amser llawn yn 16 oed a chanran y disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig wedi bod yn gyson ymhlith y gorau yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf.

Ym mhob cyfnod allweddol, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn llai na chyfartaledd Cymru. Mae grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gyffredinol yn cyflawni yn unol â'r lefelau disgwyliedig, neu'n uwch na nhw. Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn ennill medrau mewn Cymraeg mamiaith a Chymraeg ail iaith, ac at ei gilydd, maent yn cyflawni safonau da yn y ddau bwnc.

Mae rhai enghreifftiau o bobl ifanc yn cyflawni'n dda mewn lleoliadau anffurfiol a lleoliadau nad ydynt yn ffurfiol, ond yn gyffredinol, ni chaiff y data ei gasglu a'i ddadansoddi'n ddigon da i adlewyrchu'r ystod lawn.

### Lles: Da

Mae safonau lles yn dda ar y cyfan. Mae gan yr awdurdod ystod eang o fentrau a strategaethau sy'n hyrwyddo cyfranogiad mewn dysgu, a'i fwynhau.

At ei gilydd, mae pobl ifanc yn ymgysylltu'n dda mewn addysg. Mae nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar wasanaeth ieuenctid awdurdod lleol Powys yn dda, sef 25% o'r boblogaeth ieuenctid.

Er 2007, mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gwella rhywfaint a hwn yw'r pedwerydd gorau yng Nghymru erbyn hyn. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi aros yr un fath, ond mae ei safle cymharol wedi gostwng i'r chweched safle yng Nghymru. Mae cyfraddau'r gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai yn dda o'u cymharu â gweddill Cymru, ond digonol yn unig yw cyfraddau gwaharddiadau o chwe diwrnod neu fwy. Mae pobl ifanc sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol sydd am gael cymorth eiriolaeth yn gwneud defnydd da o wasanaeth eiriolaeth Tros Gynnal.

Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wedi gwneud cynnydd da mewn llawer o'i thargedau i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc. Mae strategaethau da i helpu pobl ifanc i fabwysiadu a datblygu ffyrdd mwy iach o fyw, trwy raglenni ar fwyta'n iach, ymarfer corff, camddefnyddio sylweddau ac iechyd rhywiol.

Mae llawer o ddysgwyr yn manteisio ar yr amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol mewn lleoliadau addysg, hamdden a chymunedol. Mae staff wedi pennu ffyrdd i bobl ifanc drafod bwydlenni prydau ysgol a safonau maethol. Mae'r gwaith da hwn yn helpu gwella ymwybyddiaeth pobl ifanc o bwysigrwydd bwyta a byw yn iachach.

Mae pobl ifanc yn ymgysylltu'n dda â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid trwy Fforwm Ieuenctid Powys a'r Bwrdd Iau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (a elwir yn lleol yn 'Eat Carrots be Safe from Elephants'). Mae'r bobl ifanc hyn yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n dda. Maent wedi cyfrannu'n dda at ddatblygu cynllunio a pholisi, ac wedi codi ymwybyddiaeth am broblemau pobl ifanc ymhlith aelodau etholedig allweddol a swyddogion i ddatblygu gwasanaethau newydd.

Fodd bynnag, mae ansawdd y grwpiau ymgynghori unigol sy'n bwydo i fforwm ieuenctid Powys yn amrywio'n sylweddol, ac mae angen her, monitro, cymorth a datblygiad yn benodol ar gynghorau ysgol. Pan nad yw grwpiau ymgynghori yn canolbwyntio ar roi'r cyfle i bobl ifanc wneud gwahaniaeth go iawn, nid ydynt yn datblygu medrau dinasyddiaeth pobl ifanc, neu'u dealltwriaeth o ddemocratiaeth, yn effeithiol iawn.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Digonol

### Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Digonol

Mae'r awdurdod wedi gwella ei brosesau i gefnogi, herio ac ymyrryd mewn ysgolion. Mae'n amlinellu meini prawf clir yn y Cytundeb Partneriaeth ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn deall y cymorth y byddant yn ei gael yn dda. Mae swyddogion yn dadansoddi data perfformiad yn dda ac yn cynnal rhaglen strwythuredig o adolygiadau gydag ysgolion. Maent yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol yn y rhan fwyaf o ysgolion i gyflwyno deilliannau'r adolygiadau hyn. Fodd bynnag, nid ydynt yn arfarnu pob agwedd ar arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion yn ddigon cyson eto, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.

Mae'r trefniadau hyn wedi galluogi swyddogion i wella safonau a darpariaeth mewn rhai ysgolion sy'n tanberfformio.  Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn defnyddio ystod lawn y pwerau sydd ar gael iddo, ac o ganlyniad, nid yw'n gallu gwella pob ysgol yn ddigon cyflym i'w hatal rhag cael eu nodi gan Estyn yn ysgolion sy'n achosi pryder. Ar hyn o bryd, mae dwy ysgol gynradd yn y categori mesurau arbennig ac mae angen gwella tair ysgol gynradd yn sylweddol.

Mae'r awdurdod wedi ailstrwythuro'r gwasanaeth ysgolion yn Dimau Effeithiolrwydd Ysgolion yn ddiweddar.  Mae swyddogion o wasanaethau gwella ysgolion a gwasanaethau cynhwysiant yn dechrau gweithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol i gefnogi a gwella ysgolion.  Mae prosesau sicrhau ansawdd gwaith swyddogion a'r her y maent yn ei chynnig i ysgolion yn gwella.

Mae'r awdurdod yn cefnogi ystod o fentrau defnyddiol sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol.  Mae cymorth da ar gyfer Cymraeg mamiaith ac ail iaith ac ar gyfer llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion cynradd.  Nid yw'r cymorth mor gryf ar gyfer TGCh.  Mae'r awdurdod hefyd yn darparu cymorth da ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.  Mae cymorth cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd yn llai cyson.

Ni chaiff asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2 eu safoni'n ddigon trylwyr ar draws yr awdurdod i wneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu cyflawniad disgyblion yn gywir.

Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth da i arweinwyr mewn ysgolion, gan gynnwys cyfarfodydd rhwydwaith ardal, a defnyddio mentoriaid cymheiriaid.  Mae'r cymorth ar gyfer llywodraethwyr yn dda ar y cyfan.

**Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol:  Digonol**

Mae ystod eang o gymorth a darpariaeth briodol ar gael i bron pob un o'r disgyblion, ac maent yn gwneud cynnydd da o ganlyniad.  Caiff cynnydd disgyblion unigol ar lefel ysgol ei fonitro'n dda, ond nid oes gan yr awdurdod system effeithiol ar gyfer casglu ac arfarnu'r data hwn i helpu cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn strategol.

Mae gan yr awdurdod feini prawf, gweithdrefnau a phrosesau gwneud penderfyniadau clir i asesu a phenderfynu ar natur y cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY.  Yn gyffredinol, mae penaethiaid yn deall y prosesau hyn yn dda.

Mae'r ffaith fod cyllid ADY wedi cael ei ddirprwyo i ysgolion yn ddiweddar yn galluogi penaethiaid i ddefnyddio adnoddau mewn modd hyblyg i fodloni anghenion disgyblion.  Er enghraifft, mae penaethiaid mewn rhai ysgolion wedi disodli cymorth rhan-amser ar gyfer disgyblion unigol ag ymyrraeth dargedig ar gyfer grwpiau bach lle byddai'n fwy effeithlon ac effeithiol gwneud hynny.  Fodd bynnag, nid yw pob cydlynydd anghenion arbennig yn glir ynglŷn â lefel y cyllid a'r adnoddau a ddarperir ar gyfer eu hysgolion eu hunain.

Mae cydweithio cydlynus ag ystod o bartneriaid amlasiantaethol trwy'r Paneli Atebion Adnoddau Lleol yn datblygu'n dda.  Menter ddiweddar yw hon, ac mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod y paneli hyn yn ymateb yn effeithiol i angen unigol penodol.

Mae ailstrwythuro'r gwasanaeth ysgolion yn cael effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaeth ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae trylwyredd gwell y gwasanaeth yn galluogi swyddogion i gefnogi a herio ysgolion mewn ffordd fwy cysylltiedig. Mae'r gwasanaeth seicoleg addysg yn rhoi cymorth da i ddisgyblion unigol a chyngor cadarn i ysgolion ar y ffordd orau o fodloni anghenion disgyblion. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwaith da hwn, nid ydynt yn cyfrannu digon at yr agenda ehangach ar effeithiolrwydd ysgolion i wella safonau a chynnydd ar gyfer pob disgybl.

Mae'r awdurdod yn darparu hyfforddiant â ffocws priodol ac effeithiol i adeiladu gallu ysgolion prif ffrwd i fodloni ystod o anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae'r hyfforddiant hwn yn fwyaf effeithiol mewn ardaloedd clwstwr ysgolion lle mae digon o adnoddau a darpariaeth.

Mae staff allymestyn o ysgolion arbennig yn cynnig cyngor, cymorth ac arweiniad da i ysgolion prif ffrwd eraill trwy fenter 'Datgloi'r Potensial' Llywodraeth Cymru.

Mae'r awdurdod wedi bod yn rhagweithiol yn lleihau nifer y datganiadau o 851 yn 2006-2007 i 680 yn 2009-2010, ond mae'r gyfradd yn parhau i fod yn rhy uchel. Fodd bynnag, mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn apeliadau sy'n cael eu cofrestru gyda thribiwnlys dros y flwyddyn ddiwethaf gan nad yw rhieni wedi bod yn ddigon sicr ynglŷn â'r ddarpariaeth a wnaed heb ddatganiad.

Un awdurdod yn unig yng Nghymru sydd â chanran uwch o ddisgyblion â datganiadau sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol. Yn ychwanegol, nid oes gan yr awdurdod weithdrefnau monitro digon trylwyr ar gyfer y plant y mae rhieni yn dewis eu haddysgu gartref.

Mae'r cyfathrebu a'r ymgynghori â rhieni wedi gwella, ond nid yw'r wybodaeth bob amser yn ddigon clir ar gyfer pob rhiant. Er enghraifft, nid yw gwefan yr awdurdod yn darparu digon o wybodaeth am wasanaethau i roi gwybod i rieni ble gallant fynd i gael cyngor a chymorth, fel elusen 'SNAP Cymru'.

**Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles: Digonol**

Mae'r cynnydd ers yr arolygiad diwethaf yn y maes hwn yn ddigonol.

Mae cymorth ymddygiad yn foddhaol. Fodd bynnag, nid oedd yr awdurdod ei hun yn gwybod pa mor dda yr oedd y gwasanaeth yn perfformio, er ei fod yn mynd i'r afael yn briodol â'r angen i gynnal arfarniad cynhwysfawr o wasanaethau cymorth ymddygiad fel blaenoriaeth. Ni chaiff effaith cymorth ymddygiad ei arfarnu'n ddigon da ar hyn o bryd.

O fewn y Gwasanaeth Addysg Gyflenwol, mae ffocws da wedi bod ar argymhellion adroddiadau arolygu blaenorol Estyn. Mae'r awdurdod wedi dechrau cryfhau strwythur y gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, mewn dau leoliad, mae rhannu adeiladau yn cyfyngu ar ddatblygu'r ddarpariaeth a faint sy'n gallu digwydd yno. Mae'r gwasanaethau i blant Sipsi-Deithwyr wedi gwella, a rhoddir sylw da i anghenion unigol.

Mae gan bob ysgol bolisi gwrth-fwlio. Fodd bynnag, ar lefel strategol, nid oes system i fonitro effaith y polisïau hyn eto. Mae gan bron bob ysgol bolisi cydraddoldeb hiliol, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt bolisi sy'n gweddu i'w hamgylchiadau eu hunain.

Mae Strategaeth Rianta Gorfforaethol sy'n cael ei harwain gan y Grŵp Rhianta Corfforaethol. Mae plant y gofelir amdanynt yn cael cymorth da. Fodd bynnag, nid oes digon o arfarniad o'r cynnydd y mae plant y gofelir amdanynt yn ei wneud i lywio cynllunio strategol y cymorth iddynt. Er enghraifft, nid oes trosolwg clir o ba mor dda y mae plant y gofelir amdanynt yn symud ymlaen i opsiynau ôl-16.

Mae cymorth digonol ar gyfer presenoldeb, ond mae beichiau achos Swyddogion Lles Addysg yn rhy uchel. Mae'r gostyngiad diweddar yn nifer y staff yn y gwasanaeth Lles Addysg yn cynrychioli risg i gynhwysedd y gwasanaeth hwn.

Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn rhoi ffocws da ar nodi angen a hyrwyddo cynhwysiant. Mae ystod dda o bartneriaid yn cymryd rhan yn ei ddatblygu. Mae gwefan ddefnyddiol hefyd sy'n galluogi pobl ifanc i ddod i wybod am ystod y cyfleoedd a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Mae presenoldeb mewn clybiau ieuenctid eisoes yn dda ac yn tyfu, ac fe gaiff dysgwyr gyfle da i fanteisio ar ddysgu anffurfiol sy'n arwain at achrediad. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gwneud cynnydd da o ran datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae gan yr awdurdod lleol bolisi a gweithdrefnau clir yn ymwneud â diogelu. Gwnaed datgeliadau manwl y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer oedolion sy'n gweithio gyda phlant, gan gynnwys llywodraethwyr ysgol. Mae rhaglen hyfforddi briodol a chynhwysfawr ar waith o ran diogelu ac amddiffyn plant. Mae'r Bwrdd Iau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (sy'n cael ei adnabod yn lleol fel 'Eat Carrots be Safe from Elephants') yn rhoi cyfleoedd rhagorol i bobl ifanc gael mewnbwn i faterion diogelu.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Digonol**

Mae'r awdurdod yn gweithio'n foddhaol i foderneiddio ei ysgolion mewn sir lle mae'r boblogaeth yn wasgaredig. Mae wedi lleihau nifer y lleoedd net nad ydynt wedi'u llenwi mewn ysgolion cynradd bron i chwe phwynt canran ers yr arolygiad diwethaf yn 2007 ac mae wedi lleihau'r cynhwysedd cyffredinol mewn ysgolion cynradd bron i 1,400 o leoedd yn y tair blynedd diwethaf. Gwnaeth yr awdurdod hyn ar adeg pan gynyddodd nifer y lleoedd net nad ydynt wedi'u llenwi yng Nghymru. Mae canran yr ysgolion cynradd sydd â nifer sylweddol o leoedd dros ben wedi lleihau wyth pwynt canran er 2008.

Mae'r awdurdod yn gwneud cynnydd da i foderneiddio a gwella safleoedd ysgolion cynradd. Mae'n bwriadu lleihau nifer y lleoedd dros ben 8.5% erbyn 2017. Mae'n gweithio'n dda gyda byrddau prosiect, sy'n cynnwys ystod o randdeiliaid, mewn pum ardal strategol i nodi'r ffordd orau ymlaen ym mhob ardal. Mae cynlluniau i adeiladu pedair ysgol newydd ac adnewyddu ysgol uwchradd erbyn 2012 yn mynd rhagddynt yn dda mewn un ardal, ac mae'r awdurdod yn bwriadu adeiladu dwy ysgol newydd ac adnewyddu tair ysgol arall mewn ail ardal. Er 2008, mae'r awdurdod lleol wedi adeiladu pedair ysgol gynradd newydd ac wedi ailfodelu un arall.

Mae cyfanswm cynhwysedd ysgolion uwchradd wedi aros ar yr un lefel am dair blynedd. Mae nifer y lleoedd net heb eu llenwi mewn ysgolion uwchradd wedi codi ym Mhowys er 2008 yn gyflymach na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae canran yr ysgolion uwchradd sydd â nifer sylweddol o leoedd dros ben wedi tyfu bron i wyth pwynt canran er 2008.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi dechrau proses o ymgynghori cyhoeddus am gynigion ar gyfer moderneiddio darpariaeth ysgolion uwchradd ac ôl-16. Mae'r rhain yn cynnwys:

- newid trefniadau rheoli ac ystodau oedran ysgolion uwchradd;
- buddsoddi mewn gwasanaethau bro;
- lleihau nifer y lleoedd heb eu llenwi; a
- gwella effeithlonrwydd a hyfywedd ariannol.

Fodd bynnag, nid yw cynigion yr awdurdod yn rhoi digon o ystyriaeth i'r ddarpariaeth sydd ar gael gan ddarparwyr cyfrwng Cymraeg a darparwyr ôl-16 ar ei ffiniau.

Mae'r awdurdod yn darparu gwybodaeth dda i rieni ynglŷn â derbyniadau i ysgolion. Mae'n gweithio'n dda gydag ysgolion i neilltuo lleoedd ar gyfer disgyblion o fewn graddfeydd amser priodol.

Mae'r cynllunio a'r rhagolygon cyffredinol i fodloni anghenion dysgwyr sydd am gael addysg cyfrwng Cymraeg yn wan.

Mae gan yr awdurdod weithdrefnau da ar waith i wneud yn siŵr bod digon o ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar ar gael ledled y sir.

Mae ystod dda o wasanaethau cymorth ieuenctid ar gael i bobl ifanc ym Mhowys. Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wedi gwneud cynnydd cyson wrth fynd i'r afael ag argymhellion arolygiadau blaenorol. Mae wedi gwella'r cydweithredu amlasiantaethol, y cydgynllunio a'r cydweithio. Yn benodol, caiff pobl ifanc gyfle gwell i fanteisio ar ddarpariaeth gwasanaeth ieuenctid cyfrwng Cymraeg, ac fe gaiff pobl ifanc ag anableddau gyfle gwell i fanteisio ar wasanaethau cymorth ieuenctid prif ffrwd. Fodd bynnag, mae newidiadau i'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid yn golygu bod ansicrwydd ynghylch cynnal a datblygu'r gwasanaethau hyn.

## Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? Digonol

### Arweinyddiaeth: Digonol

Mae aelodau etholedig wedi gwneud rhai penderfyniadau anodd yn y tair blynedd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys cau ysgolion. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, rhoddodd gormod o aelodau etholedig eu pryderon lleol cyn buddiannau strategol ehangach dysgwyr ledled Powys. Yn ychwanegol, mae penderfyniadau a'u gweithredu weithiau'n rhy araf.

Mae'r awdurdod mewn cyfnod o newid sylweddol. Yn y gorffennol, mae aelodau etholedig wedi ei chael yn anodd craffu ar benderfyniadau yn ddigonol. Mae deiliaid

portffolio yn weithredol yn hytrach na strategol yn rhy aml. Mae'r awdurdod wedi gwneud penderfyniad da i newid y strwythurau llywodraethu, yn gynharach na'r hyn sy'n ofynnol gan y Mesur Llywodraeth Leol diweddar, ac i sefydlu system Gabinet o Fai 2011. Nod y newidiadau hyn yw egluro rolau a chyfrifoldebau, cyflymu'r prosesau gwneud penderfyniadau a gwella prosesau ar gyfer craffu. Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau da i sicrhau bod arbenigedd rhwng aelodau etholedig yn trosglwyddo i'w Gabinet arfaethedig.

Er bod aelodau etholedig yn dechrau deall yr agenda safonau yn well, nid ydynt bob amser yn rhoi digon o ystyriaeth i, nac yn rhoi digon o bwyslais ar, safonau a manteision i ddysgwyr pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau strategol. Fodd bynnag, mae cynlluniau da i roi pwyslais gwell ar ddeilliannau. Nod cynllun corfforaethol Powys Yn Un yw alinio'r cynlluniau mwyaf strategol, lleihau'r gweithio mewn silos ac arwain at syniadau cysylltiedig gwell er budd gwasanaethau a dysgwyr. Mae'r ffaith fod yr awdurdod wedi mynd ati'n ddiweddar i benodi Prif Weithredwr newydd, Cyfarwyddwr Cyllid newydd a chyfarwyddwr corfforaethol sydd hefyd yn brif swyddog addysg, ynghyd ag ailstrwythuro'r gyfarwyddiaeth, wedi golygu bod dysgu yn fwy canolog i syniadau'r awdurdod nag yr oedd yn y gorffennol.

Dywed ysgolion eu bod yn fwy hyderus yn arweinyddiaeth a chymorth yr awdurdod erbyn hyn nag yr oeddent adeg yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod bob amser yn ymgysylltu â phob un o'i randdeiliaid yn effeithiol yn ei gynlluniau a'i weledigaeth. Nid yw'r awdurdod bob amser yn cyfathrebu'n ddigon da â thimau arweinyddiaeth a chyrff llywodraethol ysgolion i sicrhau dull cyson ar draws yr awdurdod.

Mae'r awdurdod yn dechrau dwyn gwasanaethau, ysgolion a chyrff llywodraethol i gyfrif yn fwy am eu perfformiad a'u rheolaeth ariannol. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn cynnig digon o her i dimau arweinyddiaeth a chyrff llywodraethol ysgolion o ran yr ysgolion sy'n perfformio waethaf. Yn ychwanegol, cynigir yr her yn rhy hwyr yn aml ac ni chaiff ei chynnig gan staff â hynafedd digonol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae Powys yn gwneud defnydd priodol o'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc fel y corff strategol trosfwaol ar gyfer cynllunio, datblygu, comisiynu ar y cyd ac adolygu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn cynllunio, adolygu a chomisiynu gwasanaethau wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf.

Darparodd yr awdurdod adroddiad hunanarfarnu (AHA) cynhwysfawr a manwl ar gyfer yr arolygiad. Datblygwyd hwn trwy wella prosesau ymgynghori gydag ystod eang o randdeiliaid.

Mae gan y Bartneriaeth fframwaith rheoli perfformiad clir sydd wedi cyfrannu'n dda at ei hunanasesiad ac at y dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad. Cafodd data arfarnol o wasanaethau addysg a gwasanaethau eraill cysylltiedig hefyd ei gynnwys yn AHA yr arolygiad. Mae'r awdurdod yn rhoi methodoleg yn seiliedig ar ddeilliannau ar waith ar draws gwasanaethau er mwyn gwella asesiadau deilliannau, ond mae'n rhy gynnar i farnu effaith hyn ar safonau dysgwyr. Mae rheoli perfformiad a

hunanarfarnu yn canolbwyntio gormod ar ddeilliannau ac arfarniadau ar wahân yn hytrach nag ar ddadansoddiadau o effaith ansoddol y ddarpariaeth ar ddysgwyr.

Dim ond yn ddiweddar y mae'r awdurdod wedi dechrau gwella'r ffordd y mae'n rheoli gwasanaethau trwy fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol newydd (Ffynnon), ochr yn ochr â'r Cynllun Newid corfforaethol.  Fodd bynnag, er mai nod y fframwaith hwn yw rheoli cyflawni amcanion yn well, nid oes system i arfarnu effaith gwasanaethau addysgol a gwasanaethau cymorth eraill ar iechyd a lles dysgwyr.

Mae'r gwasanaeth ysgolion yn defnyddio data yn dda i nodi tueddiadau, meysydd i'w gwella a blaenoriaethau mewn perthynas â safonau.  Caiff aelodau etholedig wybodaeth dda ac amserol am berfformiad ysgolion.  Fodd bynnag, nid yw arweinwyr a rheolwyr strategol yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad yn ddigon da bob amser i ysgogi gwelliannau mewn modd amserol.  Er enghraifft, nid yw'r awdurdod wedi mynd i'r afael â lefelau uchel o ddiffyg ariannol mewn rhai ysgolion ac nid yw ychwaith wedi cymryd camau i gefnogi ac atal ysgolion rhag mynd i gategorïau Estyn yn dilyn arolygiadau.

Mae'r Bartneriaeth ac ysgolion yn defnyddio rhwydweithiau proffesiynol yn dda i ddatblygu dealltwriaeth broffesiynol well ar draws gwasanaethau amlasiantaethol.  Er enghraifft, mae dogfennau fel catalog datblygiad proffesiynol y gwasanaethau ysgolion a llyfryn hyfforddiant integredig y Bartneriaeth yn rhoi cyfleoedd da i bawb sy'n ymgymryd â gwasanaethau addysg a chymorth gael hyfforddiant mewn ystod eang o destunau.  Mae'r awdurdod hefyd yn aelod gweithgar o'r rhwydwaith rhanbarthol (SWAMWAC) a rhwydweithiau eraill, sy'n helpu rhannu arfer dda ledled y rhanbarth.

Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd boddhaol yn erbyn y canfyddiadau a'r argymhellion o arolygiad blaenorol Estyn.

### Gweithio mewn partneriaeth:  Digonol

Mae'r awdurdod yn dangos ymrwymiad cryf i weithio cydweithredol a gweithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer Powys.  Mae ganddo gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, sy'n cynnwys gwaith Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) Powys.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a phartneriaethau strategol eraill, i wneud yn siŵr bod blaenoriaeth allweddol yn cael ei rhoi i wasanaethau addysg i ddysgwyr.  Mae'r ymgynghori ar gynllunio dysgu ôl-16 yn barhaus, ond nid oes digon o archwilio wedi bod i weld pa mor dda y gallai opsiynau'r ddarpariaeth mewn awdurdodau cyfagos yn gwella cyfleoedd i ddysgwyr ac yn gwella'r llwybrau ar gyfer dilyniant hefyd.

Mae'r Bartneriaeth wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf.  Mae ganddi strwythur clir sydd wedi'i seilio ar system â phedair haen, sy'n adlewyrchu gwasanaethau cymorth cyffredinol ac arbenigol yn dda.  Caiff gymorth strategol da hefyd gan uwch arweinwyr gwasanaethau mewn sectorau statudol a gwirfoddol.  Mae gan uwch arweinwyr flaenoriaethau clir i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd.

Mae’r ffaith fod paneli amlasiantaethol a phaneli lleol, fel y paneli atebion adnoddau lleol (PAALl) wedi cael eu datblygu’n dda, yn rhoi sylfaen gadarnhaol i’r Bartneriaeth ar gyfer gwella gweithio amlasiantaethol ymhellach. Mae’r strwythur hwn, ynghyd â’r defnydd da o’u fframwaith asesu cyffredin a’u protocol rhannu gwybodaeth, yn helpu defnyddwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, ni chaiff deilliannau gwasanaethau eu dadansoddi’n ddigon trylwyr i gynllunio’n effeithiol ar gyfer gwella gwasanaethau.

Mae’r Bartneriaeth yn sicrhau cymorth amlasiantaethol da ar gyfer plant cyn-ysgol a’u teuluoedd. Mae wedi ymateb yn dda i newidiadau mewn cyllid ar gyfer y blynyddoedd cynnar, trwy ddadansoddi’r sefyllfa, dyrannu adnoddau ychwanegol i gynnal darpariaeth, a gostwng yr oedran y gall plant ddechrau yn yr ysgol.

Fodd bynnag, nid yw’r Bartneriaeth yn dadansoddi goblygiadau gostyngiadau cynlluniedig mewn adnoddau yn ddigon da ar draws y Bartneriaeth. Mae hyn yn golygu na all y Bartneriaeth nodi’n gywir ble a sut bydd bylchau mewn gwasanaethau yn effeithio ar ddysgwyr, a chynllunio’n effeithiol i fodloni anghenion blaenoriaeth.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr awdurdod hanes cadarn o reoli ei gyllidebau ei hun, ond mae diffyg yng nghyllidebau gormod o’i ysgolion.

Mae’r awdurdod yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau cyfalaf i gyflwyno’r rhaglen moderneiddio addysg. Yn ogystal â grant Cymru, mae’r awdurdod wedi buddsoddi yn y rhaglen trwy dderbynebau cyfalaf a benthyca darbodus. Wrth gynllunio rhaglen foderneiddio’r dyfodol, mae ansicrwydd ynghylch grantiau yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn briodol yn y broses gynllunio.

Argymhellodd yr arolygiad yn 2007 fod angen i ysgolion a rheolwyr gwasanaethau ddatblygu eu gallu eu hunain i reoli adnoddau. Cymerwyd rhai camau, ond nid yw’r awdurdod wedi bodloni’r argymhelliad hwn yn llawn hyd yn hyn.

Dirprwywyd mwy o adnoddau ADY, ac mae’r fformiwla ar gyfer dirprwyo’r adnoddau hyn yn briodol. Mae swyddogion effeithiolrwydd ysgolion yn herio ysgolion ar eu defnydd o adnoddau ADY ac mae mwy o waith yn cael ei wneud i gymharu’r deilliannau yn sgil defnyddio adnoddau rhwng gwahanol ysgolion.

Nid yw’r awdurdod wedi datblygu cynlluniau ariannol cynhwysfawr eto i gyflawni ei amcanion gwella, ac mae eto i alinio ei gynllun ariannol tymor canolig â’i flaenoriaethau gwella. Nid yw fframweithiau rheoli perfformiad a fframweithiau arfarnu wedi’u cysylltu’n ddigonol â’r prosesau dyrannu adnoddau. Mae hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â’r gwasanaethau addysg, ond ag ystod gyfan y gwasanaethau a ariennir trwy drefniadau partneriaeth hefyd, gan gynnwys y gwasanaeth cymorth ieuenctid. O ganlyniad, nid yw gwasanaethau addysg yn gallu barnu gwerth am arian eu gwasanaethau yn effeithiol.

Mae diffyg yng nghyllidebau gormod o ysgolion. Mae diffygion bach nad ydynt wedi’u trwyddedu gan un deg pedwar o ysgolion, gan gynnwys naw ysgol gynradd. Mae’r awdurdod lleol yn gweithio gyda’r ysgolion hyn i roi cynlluniau adfer cyllideb ar waith. Fodd bynnag, yn y sector uwchradd yn arbennig, mae gostyngiadau yn

niferoedd y disgyblion a phwysau ar gyllid ôl-16 ym Mhowys yn golygu ei bod yn anodd i ysgolion wella o'u diffygion.  Mae'r rhan fwyaf o'r diffygion mewn ysgolion uwchradd yn uchel.

Mae Cyngor Sir Powys yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Angharad Reed AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Alun Connick AEM | Arolygydd Tîm |
| Ann Jones AEM | Arolygydd Tîm |
| Liam Kealy AEM | Arolygydd Tîm |
| Gerard Kerslake AEM | Arolygydd Tîm |
| Mererid Stone AEM | Arolygydd Tîm |
| Jane Taylor AEM | Arolygydd Tîm |
| Susan Roberts AEM | Arolygydd Tîm |
| Dave Barlow | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Gwynne Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ian Roberts | Enwebai |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk).